# ESG
# 2015

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop

Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, y DU (QAA).
www.qaa.ac.uk

Y fersiwn Saesneg yw unig fersiwn swyddogol yr ESG. Mae'r partïon cyfieithu'n gyfrifol am unrhyw beth sydd wedi ei gyfieithu'n anghywir.

# Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG)

***Dylech gyfeirio at y cyhoeddiad hwn fel:***

**Y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) (2015) - Brwsel, Gwlad Belg.**

ISBN: 978-9-08-168672-3
Adnau cyfreithiol: D/2015/13.742/1

*Yr awduron:*
Cymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA)
Undeb Myfyrwyr Ewrop (ESU)
Cymdeithas Prifysgolion Ewrop (EUA)
Cymdeithas Sefydliadau mewn Addysg Uwch Ewrop (EURASHE)
Mewn cydweithrediad ag:
Education International (EI)
BUSINESSEUROPE
Y Gofrestr Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd (EQAR)

*Dyluniwyd a chyhoeddwyd:*
gan EURASHE ar ran yr awduron - Brwsel, Gwlad Belg. 2015

Trwyddedir y gwaith hwn o dan delerau Trwydded Ryngwladol Priodoliad-Anfasnachol-Rhannu Dan yr Un Amodau 4.0 Creative Commons. I weld copi o'r drwydded hon, ewch i: http://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/.

---

Argraffwyd gyda chymorth y prosiect EQUIP a ariennir gan yr UE.

Nod y prosiect EQUIP, a ariennir gan yr UE, yw *gwella ansawdd drwy bolisïau ac arferion arloesol* ym maes addysg uwch Ewrop drwy hyrwyddo ymwreiddio'r ESG mewn ffordd gyson, effeithlon ac arloesol ar lefel sylfaenol. Dyma'r partneriaid yn y prosiect EQUIP: EURASHE, ENQA, EUA, ESU, EI Research Institute, EQAR, UiO IPED a CCISP.

**Gydag arian gan raglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd**

Nid yw cymorth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn golygu ei fod yn cymeradwyo'r cynnwys ynddo sy'n adlewyrchu barn yr awduron yn unig, ac ni all y Comisiwn gael ei ddal yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd a wneir o'r wybodaeth sydd ynddo.

## Rhestr Cynnwys

**Rhagair** ........ **5**

**I. Cyd-destun, cwmpas, dibenion ac egwyddorion** ........ **6**

Gosod y cyd-destun ........ 6

Cwmpas a chysyniadau ........ 6

ESG: Dibenion ac egwyddorion ........ 7

**II. Safonau a chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrhau ansawdd mewn addysg uwch** ........ **9**

Rhan 1: Safonau a chanllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol ........ 10

Rhan 2: Safonau a chanllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd allanol ........ 17

Rhan 3: Safonau a chanllawiau ar gyfer asiantaethau sicrhau ansawdd ........ 21

**III. Atodlen: Rhestr gryno o safonau** ........ **25**

# RHAGAIR

Mabwysiadwyd y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) gan y Gweinidogion sy’n gyfrifol am addysg uwch yn 2005 yn dilyn cynnig a baratowyd gan y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (ENQA) mewn cydweithrediad ag Undeb Myfyrwyr Ewrop (ESU),[1] Cymdeithas Sefydliadau Addysg Uwch Ewrop (EURASHE) a Chymdeithas Prifysgolion Ewrop (EUA).

Ers 2005, gwnaed cynnydd sylweddol mewn sicrhau ansawdd yn ogystal ag mewn meysydd gweithredu Bologna eraill megis fframweithiau cymwysterau, cydnabyddiaeth a hyrwyddo'r defnydd o ddeilliannau dysgu; mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at symudiad tuag at ddysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.

O ystyried y cyd-destun cyfnewidiol hwn, yn 2012 gwahoddodd y Communiqué Gweinidogol Grŵp E4 (ENQA, ESU, EUA, EURASHE) mewn cydweithrediad â’r sefydliad Addysg Rhyngwladol (EI), *BUSINESSEUROPE* a’r Gofrestr Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch (EQAR) i baratoi cynnig cychwynnol ar gyfer safonau a chanllawiau ESG diwygiedig “i wella eu heglurder, eu cymhwysedd a’u defnyddioldeb, yn ogystal â’u cwmpas”.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys nifer o gylchoedd ymgynghori yn cynnwys y sefydliadau rhanddeiliaid allweddol a gweinidogaethau. Cafodd y nifer fawr o sylwadau, cynigion ac argymhellion a dderbyniwyd eu dadansoddi'n ofalus a'u cymryd o ddifrif gan y Grŵp Llywio. Maent yn cael eu hadlewyrchu yn fersiwn 2015 o'r ESG.

Mabwysiadwyd ESG 2015 gan y Gweinidogion oedd yn gyfrifol am addysg uwch yn Ardal Addysg Uwch Ewrop ym mis Mai 2015. O ganlyniad i'r adolygiad cyfranogol rydym yn hyderus eu bod yn adlewyrchu consensws ymhlith yr holl sefydliadau a gweinidogaethau dan sylw ar sut i fwrw ymlaen â sicrhau ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop, ac felly, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu llwyddiannus.

Y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch
(ENQA)
Undeb Myfyrwyr Ewrop (ESU)
Cymdeithas Prifysgolion Ewrop (EUA)
Cymdeithas Ewropeaidd Sefydliadau mewn Addysg Uwch (EURASHE)
mewn cydweithrediad ag:
Addysg Ryngwladol (EI)
*BUSINESSEUROPE*
Y Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg Uwch

1 Arferai ESU gael ei adnabod fel ESIB sef Undebau Cenedlaethol Myfyrwyr Ewrop.

# I. CYD-DESTUN, CWMPAS, DIBENION AC EGWYDDORION

## GOSOD Y CYD-DESTUN

Mae addysg uwch, ymchwil ac arloesi yn chwarae rhan hanfodol wrth gynorthwyo cydlyniant cymdeithasol, twf economaidd a chystadleurwydd byd-eang. O ystyried yr awydd i gymdeithasau Ewropeaidd ddod yn fwyfwy seiliedig ar wybodaeth, mae addysg uwch yn elfen hanfodol o ddatblygiad cymdeithasol-economaidd a diwylliannol. Ar yr un pryd, mae galw cynyddol am sgiliau a chymwyseddau yn golygu bod angen i addysg uwch ymateb mewn ffyrdd newydd.

Mae mynediad ehangach i addysg uwch yn gyfle i sefydliadau addysg uwch ddefnyddio profiadau unigol sy'n gynyddol amrywiol. Mae ymateb i amrywioldeb a disgwyliadau cynyddol ar gyfer addysg uwch yn gofyn am newid sylfaenol yn ei darpariaeth; mae'n gofyn am ddull dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio mwy ar y myfyriwr, gan groesawu llwybrau dysgu hyblyg a chydnabod cymwyseddau a enillwyd y tu allan i gwricwla ffurfiol. Mae sefydliadau addysg uwch eu hunain hefyd yn dod yn fwy amrywiol o ran eu cennad, eu dull o ddarparu addysg a chydweithio, gan gynnwys twf mewn rhyngwladoli, dysgu digidol a ffurfiau newydd o gyflwyno.[2] Mae rôl sicrhau ansawdd yn hollbwysig wrth gynorthwyo systemau a sefydliadau addysg uwch i ymateb i'r newidiadau hyn, tra'n sicrhau bod y cymwysterau a enillir gan fyfyrwyr a'u profiad o addysg uwch yn parhau i gael blaenoriaeth yng nghennad sefydliadau.

Un o nodau allweddol y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) yw cyfrannu at ddealltwriaeth gyffredin o sicrwydd ansawdd ar gyfer dysgu ac addysgu ar draws ffiniau ac ymhlith yr holl randdeiliaid.[3] Maent wedi chwarae rhan bwysig, a byddant yn parhau i chwarae rhan bwysig yn natblygiad systemau sicrhau ansawdd cenedlaethol a sefydliadol ar draws Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd (EHEA) a chydweithrediad trawsffiniol. Mae ymwneud â phrosesau sicrhau ansawdd, yn enwedig y rhai allanol, yn caniatáu i systemau addysg uwch Ewropeaidd ddangos ansawdd a chynyddu tryloywder, gan helpu felly i feithrin cyd-ymddiriedaeth a gwell cydnabyddiaeth o'u cymwysterau, eu rhaglenni[4] a darpariaeth arall.

Defnyddir safonau a chanllawiau ESG gan sefydliadau ac asiantaethau sicrhau ansawdd fel dogfen gyfeirio ar gyfer systemau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol mewn addysg uwch. Ar ben hynny, cânt eu defnyddio gan y Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd (EQAR), sy'n gyfrifol am y gofrestr o asiantaethau sicrhau ansawdd sy'n cydymffurfio â'r ESG.

## CWMPAS A CHYSYNIADAU

Mae'r ESG yn set o safonau a chanllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol ac allanol mewn addysg uwch. Nid safonau ar gyfer ansawdd yw'r ESG, ac nid ydynt ychwaith yn rhagnodi sut y caiff y prosesau sicrhau ansawdd eu rhoi ar waith, ond maent yn darparu arweiniad, sy'n cwmpasu'r meysydd hynny sy'n hanfodol ar gyfer darparu ansawdd ac amgylcheddau dysgu'n llwyddiannus mewn addysg uwch. Dylid ystyried yr ESG mewn cyd-destun ehangach sydd hefyd yn cynnwys fframweithiau cymwysterau, ECTS ac atodiad diploma sydd hefyd yn cyfrannu at hyrwyddo tryloywder a chyd-ymddiriedaeth mewn addysg uwch yn yr EHEA.

---

2 Cyfathrebiad gan y Comisiwn Ewropeaidd: Agor Addysg: Addysgu a dysgu arloesol i bawb trwy Dechnolegau newydd ac Adnoddau Addysgol Agored, COM(2013) 654 terfynol, http://ec.europa.eu/education/news/doc/openingcom_cy.pdf

3 Oni nodir yn wahanol, yn y ddogfen mae rhanddeiliaid yn golygu pawb o fewn sefydliad, gan gynnwys myfyrwyr a staff, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol megis cyflogwyr a phartneriaid allanol y sefydliad.

4 Mae'r term “rhaglen” yn y safonau hyn yn cyfeirio at ddarpariaeth addysg uwch yn ei hystyr ehangaf, gan gynnwys darpariaeth nad yw'n rhan o raglen sy'n arwain at radd ffurfiol.

**Mae ffocws yr ESG ar sicrhau ansawdd sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu mewn addysg uwch, gan gynnwys yr amgylchedd dysgu a chysylltiadau perthnasol ag ymchwil ac arloesi**. Yn ogystal, mae gan sefydliadau bolisïau a phrosesau i sicrhau a gwella ansawdd eu gweithgareddau eraill, megis ymchwil a llywodraethiant.

**Mae'r ESG yn berthnasol i'r holl addysg uwch a gynigir yn yr EHEA, beth bynnag fo'r dull astudio neu'r man cyflwyno**. Felly, mae safonau a chanllawiau'r ESG hefyd yn berthnasol i bob math o addysg uwch, gan gynnwys darpariaeth drawswladol a thrawsffiniol. **Yn y ddogfen hon, mae'r term "rhaglen" yn cyfeirio at ddarpariaeth addysg uwch yn ei hystyr ehangaf**, gan gynnwys darpariaeth nad yw'n rhan o raglen sy'n arwain at radd ffurfiol.

Mae addysg uwch yn ceisio cyflawni nifer o ddibenion; gan gynnwys paratoi myfyrwyr ar gyfer dinasyddiaeth weithredol, ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol (e.e. cyfrannu at eu cyflogadwyedd), cynorthwyo â'u datblygiad personol, creu sylfaen wybodaeth eang ac ysgogi ymchwil ac arloesi.[5] Felly, gall rhanddeiliaid, a all flaenoriaethu gwahanol ddibenion, weld ansawdd mewn addysg uwch yn wahanol ac mae angen i sicrhau ansawdd ystyried y gwahanol safbwyntiau hyn. Er nad yw'n hawdd ei ddiffinio, mae *Ansawdd* yn digwydd yn bennaf o ganlyniad i'r rhyngweithio rhwng athrawon, myfyrwyr a'r amgylchedd dysgu sefydliadol. Dylai sicrhau ansawdd sicrhau amgylchedd dysgu lle mae cynnwys rhaglenni, cyfleoedd dysgu a chyfleusterau yn addas at y diben.

Wrth wraidd pob gweithgaredd sicrhau ansawdd mae dau ddiben, sef *atebolrwydd* a *gwelliant*. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu ymddiriedaeth ym mherfformiad y sefydliad addysg uwch. Bydd system sicrhau ansawdd a weithredir yn llwyddiannus yn darparu gwybodaeth i roi sicrwydd i'r sefydliad addysg uwch a'r cyhoedd am ansawdd gweithgareddau'r sefydliad addysg uwch (atebolrwydd), yn ogystal â darparu cynghorion ac argymhellion ar sut y gallai wella'r hyn y mae'n ei wneud (gwelliant). Felly mae sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn gydgysylltiedig. Gallant gefnogi datblygiad *diwylliant o ansawdd* sy'n cael ei groesawu gan bawb: o'r myfyrwyr a'r staff academaidd i arweinyddiaeth a thîm rheoli'r sefydliad.

**Defnyddir y term 'sicrhau ansawdd' yn y ddogfen hon i ddisgrifio'r holl weithgareddau o fewn y cylchred gwelliant parhaus (h.y. gweithgareddau sicrhau a gwelliant).**

Oni nodir yn wahanol, yn y ddogfen mae *rhanddeiliaid* yn golygu pawb o fewn sefydliad, gan gynnwys myfyrwyr a staff, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol megis cyflogwyr a phartneriaid allanol y sefydliad.

Defnyddir y gair *sefydliad* yn y safonau a'r canllawiau i gyfeirio at sefydliadau addysg uwch. Yn dibynnu ar ymagweddiad y sefydliad at sicrhau ansawdd, gall fodd bynnag gyfeirio at y sefydliad cyfan neu at unrhyw unigolion o fewn y sefydliad.

## ESG: DIBENION AC EGWYDDORION

Mae gan safonau a chanllawiau'r ESG y dibenion canlynol:

- **Maent yn gosod fframwaith cyffredin** ar gyfer systemau sicrhau ansawdd o ran dysgu ac addysgu ar lefel Ewropeaidd, cenedlaethol a sefydliadol;
- **Maent yn galluogi sicrhau a gwella ansawdd** addysg uwch yn ardal addysg uwch Ewrop;
- **Maent yn cefnogi cyd-ymddiriedaeth**, a thrwy hynny hwyluso cydnabyddiaeth a symudedd o fewn ac ar draws ffiniau cenedlaethol;
- **Maent yn darparu gwybodaeth am sicrhau ansawdd** o fewn ardal addysg uwch Ewrop.

5 Argymhelliad (2007)6 gan Bwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop ar gyfrifoldeb cyhoeddus dros addysg uwch ac ymchwil, http://www.coe.int/t/dg4/highereducation/News/pub_res_CY.pdf

Mae'r dibenion hyn yn darparu fframwaith sy'n galluogi gwahanol sefydliadau, asiantaethau a gwledydd i ddefnyddio safonau a chanllawiau'r ESG a'u gweithredu mewn ffyrdd gwahanol. Nodwedd amlwg ardal addysg uwch Ewrop yw ei hamrywioldeb o ran systemau gwleidyddol, systemau addysg uwch, traddodiadau cymdeithasol-ddiwylliannol ac addysgol, ieithoedd, dyheadau a disgwyliadau. Mae hyn yn gwneud un dull monolithig o ymdrin ag ansawdd a sicrwydd ansawdd mewn addysg uwch yn amhriodol. Mae derbyn pob safon yn gyffredinol yn rhagamod ar gyfer creu dealltwriaeth gyffredin ar gyfer sicrhau ansawdd yn Ewrop. Am y rhesymau hyn, mae angen i safonau a chanllawiau'r ESG fod ar lefel resymol gyffredinol er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i bob math o ddarpariaeth.

Mae'r ESG yn darparu'r meini prawf ar lefel Ewropeaidd ar gyfer asesu asiantaethau sicrhau ansawdd a'u gweithgareddau.[6] Mae hyn yn sicrhau bod yr asiantaethau sicrhau ansawdd yn ardal addysg uwch Ewrop yn cadw at yr un set o egwyddorion a bod y prosesau a'r gweithdrefnau wedi'u modelu i gyd-fynd â dibenion a gofynion eu cyd-destunau.

Mae safonau a chanllawiau'r ESG yn seiliedig ar y pedair egwyddor a ganlyn ar gyfer sicrhau ansawdd yn ardal addysg uwch Ewrop (EHEA):

- Y sefydliadau addysg uwch eu hunain sydd â'r prif gyfrifoldeb am ansawdd eu darpariaeth a sicrhau'r ansawdd hwnnw;
- Mae sicrhau ansawdd yn ymateb i amrywioldeb systemau, sefydliadau, rhaglenni a myfyrwyr mewn addysg uwch;
- Mae sicrhau ansawdd yn cynorthwyo â datblygiad diwylliant o ansawdd;
- Mae sicrhau ansawdd yn rhoi ystyriaeth i anghenion a disgwyliadau myfyrwyr, yr holl randdeiliaid eraill a chymdeithas.

6 Mae asiantaethau sy'n gwneud cais i gael eu cynnwys yn y Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd (EQAR) yn ymgymryd ag adolygiad allanol y mae'r ESG yn darparu'r meini prawf ar ei gyfer. Hefyd mae'r Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (ENQA) yn dibynnu ar gydymffurfiaeth â'r ESG pan ddaw'n fater o gyflwyno statws aelodaeth lawn i asiantaethau sicrhau ansawdd.

## II. SAFONAU A CHANLLAWIAU EWROPEAIDD AR GYFER SICRHAU ANSAWDD MEWN ADDYSG UWCH

Mae’r safonau ar gyfer sicrhau ansawdd wedi’u rhannu’n dair rhan:

- Sicrhau ansawdd mewnol
- Sicrhau ansawdd allanol
- Asiantaethau sicrhau ansawdd

Dylid cofio, fodd bynnag, bod y tair rhan wedi'u cydgysylltu, a'u bod gyda'i gilydd yn sail i fframwaith sicrhau ansawdd Ewropeaidd. Mae sicrwydd ansawdd allanol yn Rhan 2 yn cydnabod y safonau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol yn Rhan 1, gan felly sicrhau bod y gwaith mewnol a wneir gan sefydliadau yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw weithgareddau o ran sicrhau ansawdd allanol y maent yn ymgymryd â nhw. Yn yr un modd mae Rhan 3 yn cyfeirio at Ran 2. Felly, mae'r tair rhan hyn yn gweithio ar sail gyflenwol mewn sefydliadau addysg uwch yn ogystal â mewn asiantaethau, ac maent hefyd yn gweithio ar y ddealltwriaeth bod rhanddeiliaid eraill yn cyfrannu at y fframwaith. O ganlyniad, dylid darllen y tair rhan fel cyfanwaith.

Mae'r safonau’n gosod allan arfer y cytunwyd arno ac a dderbynnir ar gyfer sicrhau ansawdd addysg uwch yn ardal addysg uwch Ewrop, ac felly dylid rhoi ystyriaeth iddynt a chydymffurfio â nhw, ym mhob math o ddarpariaeth addysg uwch.[7] Mae rhestr gryno o safonau ar gyfer sicrhau ansawdd wedi’i chynnwys yn yr atodlen er mwyn ei gwneud yn hawdd cyfeirio atynt.

Mae'r canllawiau’n esbonio pam mae'r safon yn bwysig ac yn disgrifio sut y gellir, o bosib, gweithredu safonau. Maent yn disgrifio arfer da yn y maes perthnasol i'w ystyried gan yr unigolion hynny sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd. Bydd gweithredu’n amrywio, yn dibynnu ar wahanol gyd-destunau.

7 Mae'r safonau’n gwneud defnydd o'r gair “dylai” sy’n awgrymu cyfarwyddyd a chydymffurfiaeth.

# Rhan 1: Safonau a chanllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol

## 1.1 POLISI AR GYFER SICRHAU ANSAWDD

**SAFON:**
Dylai sefydliadau fod â pholisi ar gyfer sicrhau ansawdd sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n ffurfio rhan o'u rheolaeth strategol. Dylai rhanddeiliaid mewnol ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn drwy drefnau a phrosesau priodol, gan gynnwys rhanddeiliaid allanol yn y gwaith hefyd.

**CANLLAWIAU:**
Y polisïau a'r prosesau yw prif gynhalwyr system sicrhau ansawdd sefydliadol cydlynol sy'n ffurfio cylch o wella parhaol ac sy'n cyfrannu at atebolrwydd y sefydliad. Mae'n cefnogi datblygiad diwylliant o wella ansawdd lle mae'r holl randdeiliaid mewnol yn gyfrifol am ansawdd ac yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau ansawdd ar bob lefel yn y sefydliad. I hwyluso hyn, mae gan y polisi statws ffurfiol ac mae ar gael i'r cyhoedd.

Mae polisïau sicrhau ansawdd ar eu mwyaf effeithiol pan maent yn adlewyrchu'r berthynas rhwng gwaith ymchwil a dysgu ac addysgu ac yn rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun cenedlaethol y mae'r sefydliad yn gweithredu oddi mewn iddo, ac i gyd-destun y sefydliad a'i ddull strategol. Mae polisi o'r fath yn cefnogi:

- trefniant y system sicrhau ansawdd
- adrannau, ysgolion, cyfadrannau ac unedau cyfundrefnol eraill yn ogystal â rhai'r arweinwyr sefydliadol, aelodau unigol o'r staff a'r myfyrwyr i ysgwyddo eu cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd
- cywirdeb academaidd a rhyddid ac yn cadw llygad craff am dwyll academaidd
- ddiogelu yn erbyn unrhyw fath o anoddefgarwch neu wahaniaethu yn erbyn y myfyrwyr neu'r staff
- cyfranogaeth rhanddeiliaid allanol yn y gwaith o sicrhau ansawdd.

Mae'r polisi'n trosi'n arferion drwy amrywiaeth o brosesau sicrhau ansawdd mewnol sy'n caniatáu cyfranogaeth ar draws y sefydliad. Lle'r sefydliad yw penderfynu sut mae'r polisi'n cael ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu.

Mae'r polisi sicrhau ansawdd yn ymwneud hefyd ag unrhyw elfennau o weithgareddau'r sefydliad sy'n cael eu his-gontractio i bartïon eraill neu'n cael eu gweithredu gan bartïon eraill.

## 1.2 CYNLLUNIO A CHYMERADWYO RHAGLENNI

**SAFON:**
Dylai sefydliadau fod â phrosesau ar gyfer cynllunio a chymeradwyo eu rhaglenni. Dylid llunio'r rhaglenni fel eu bod yn cyflawni'r amcanion a osodir iddynt, yn cynnwys y canlyniadau dysgu a fwriedir. Dylai bennu a chyfathrebu'n glir pa gymhwyster fydd yn codi o raglen, a dylai gyfeirio at y lefel gywir ar y fframwaith cymwysterau cenedlaethol ar gyfer addysg uwch ac, o ganlyniad, at y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop.

**CANLLAWIAU:**
Mae rhaglenni astudio wrth graidd cenhadaeth addysgu'r sefydliadau addysg uwch. Maent yn rhoi gwybodaeth academaidd a sgiliau academaidd i fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai sy'n drosglwyddadwy, a allai ddylanwadu ar eu datblygiad personol ac y gellir eu defnyddio yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae'r rhaglenni:

- wedi'u llunio gydag amcanion cyffredinol sy'n cyfateb â strategaeth ysefydliad ac sydd â chanlyniadau dysgu a fwriedir clir
- wedi'u llunio gan gynnwys myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith
- yn elwa o arbenigedd allanol a phwyntiau cyfeirio allanol

- yn adlewyrchu pedwar pwrpas addysg uwch fel y maent wedi'u diffinio gan Gyngor Ewrop (cyfeiriwch at Gwmpas a Chysyniadau)
- wedi'u llunio fel eu bod yn galluogi i'r myfyriwr symud ymlaen yn esmwyth
- yn diffinio llwyth gwaith disgwyliedig y myfyriwr e.e. yn y System Casglua Throsglwyddo Credydau Ewropeaidd (ECTS)
- yn cynnwys cyfleoedd lleoliad gwaith wedi'u strwythuro'n dda, lle bo'n briodol[8]
- yn atebol i broses gymeradwyo ffurfiol sefydliadol.

## 1.3 DYSGU, ADDYSGU AC ASESU SY'N CANOLBWYNTIO AR Y MYFYRIWR

**SAFON:**
Dylai sefydliadau sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n annog myfyriwr i gymryd rôl weithredol yn y gwaith o greu'r broses ddysgu, a bod asesiad y myfyrwyr yn adlewyrchu'r dull yma

**CANLLAWIAU:**
Mae dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr yn chwarae rôl bwysig mewn ysgogi cymhelliant, hunanystyriaeth ac ymgysylltiad myfyrwyr yn y broses ddysgu. Mae hyn yn golygu rhoi ystyriaeth ofalus i gynllun a darpariaeth rhaglenni astudio ac asesu canlyniadau.

Mae gweithrediad dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr:
- yn parchu ac yn rhoi sylw i amrywiaeth y myfyrwyr a'u hanghenion, gan alluogi llwybrau dysgu hyblyg
- yn ystyried ac yn defnyddio dulliau gwahanol o ddarparu, lle bo'n briodol
- yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgol yn hyblyg
- yn gwerthuso ac yn addasu'r dulliau o ddarparu a'r dulliau addysgol yn rheolaidd
- yn annog naws o hunanreolaeth o fewn y dysgwr, gan sicrhau arweiniad a chefnogaeth ddigonol gan yr athro/athrawes
- yn hybu parch cyfartal o fewn y berthynas rhwng dysgwyr ac athrawon
- yn cynnwys gweithdrefnau priodol ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr.

Wrth ystyried pwysigrwydd asesu ar gyfer cynnydd y myfyrwyr a'u gyrfaoedd yn y dyfodol, mae'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer asesu'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol:
- Mae aseswyr yn gyfarwydd â'r dulliau profi ac arholi presennol ac yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau eu hunain yn y maes yma
- Mae'r meini prawf asesu a'r dull asesu, yn ogystal â'r meini prawf marcio, yn cael eu cyhoeddi o flaen llaw
- Mae'r asesiad yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos i ba raddau y mae'r canlyniadau dysgu a fwriedir wedi'u cyflawni; mae'r myfyrwyr yn derbyn adborth sydd, os oes raid, yn cael ei gysylltu â chyngor am y broses ddysgu
- Lle bo'n bosibl, mae mwy nag un arholwr yn gwneud yr asesiad
- Mae'r rheoliadau ar gyfer asesu'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lliniarol
- Mae'r asesiad yn gyson, yn cael ei weithredu'n deg i bob myfyriwr ac yn cadw at y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi
- Mae gweithdrefn ffurfiol ar waith ar gyfer apeliadau myfyrwyr.

---

8 Mae lleoliadau gwaith yn cynnwys hyfforddeiaethau, interniaethau a chyfnodau eraill o'r rhaglen nad ydynt yn cael eu treulio o fewn y sefydliad ond sy'n caniatáu i'r myfyriwr gael profiad mewn maes sy'n berthnasol i'w hastudiaethau.

## 1.4 DERBYNIAD, CYNNYDD, CYDNABYDDIAETH AC ARDYSTIAD MYFYRWYR

**SAFON:**
Dylai sefydliadau ddefnyddio'n gyson y rheoliadau sydd wedi'u diffinio'n barod a'u cyhoeddi sy'n ymwneud â phob cam o 'gylch bywyd' y myfyriwr, e.e. derbyniad, cynnydd, cydnabyddiaeth ac ardystiad y myfyriwr.

**CANLLAWIAU:**
Mae darparu'r amodau a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol er mwyn i'r myfyrwyr symud ymlaen yn eu gyrfaoedd academaidd o fudd i'r myfyrwyr, rhaglenni, sefydliadau a systemau unigol. Mae'n hanfodol cael gweithdrefnau derbyn, cydnabod a chwblhau sy'n addas i'r pwrpas, yn arbennig pan fo myfyrwyr yn symudol o fewn ac ar draws systemau addysg uwch.

Mae'n bwysig bod polisïau mynediad, a phrosesau a meini prawf derbyn yn cael eu gweithredu'n gyson ac mewn ffordd agored a gonest. Darperir cyflwyniad ymsefydlu i'r sefydliad a'r rhaglen.

Mae angen i sefydliadau roi prosesau ac offer yn eu lle i gasglu, monitro, ac i weithredu ar, wybodaeth am gynnydd myfyrwyr.

Mae cydnabyddiaeth deg o gymwysterau addysg uwch, cyfnodau astudio a dysgu blaenorol, gan gynnwys cydnabyddiaeth o ddysgu anffurfiol ac nad yw'n ffurfiol, yn elfennau hanfodol i sicrhau cynnydd y myfyrwyr yn eu hastudiaethau, gan hybu symudedd ar yr un pryd.
Mae trefnau cydnabod priodol yn dibynnu ar:

- sicrhau bod yr arferion sefydliadol i roi cydnabyddiaeth yn cyfateb agegwyddorion Confensiwn Lisbon ar Gydnabod Cymwysterau
- gydweithredu gyda sefydliadau eraill, asiantaethau sicrhau ansawdd a'r ganolfan ENIC/NARIC genedlaethol gyda'r bwriad o sicrhau cydnabyddiaeth gydlynol ar draws y wlad.

Mae graddio'n cynrychioli diweddglo cyfnod astudio'r myfyriwr. Mae angen i fyfyrwyr dderbyn dogfennaeth sy'n esbonio'r cymhwyster a enillwyd ganddynt, yn cynnwys y canlyniadau dysgu a gyflawnwyd a chyd-destun, lefel, cynnwys a statws yr astudiaethau a wnaed ac a gwblhawyd yn llwyddiannus.

## 1.5 STAFF ADDYSGU

**SAFON:**
Dylai sefydliadau eu sicrhau eu hunain o gymhwysedd eu hathrawon. Dylent ddefnyddio prosesau teg ac eglur ar gyfer penodi a datblygu'r staff.

**CANLLAWIAU:**
Mae rôl athrawon yn hanfodol i greu profiad o safon uchel i'r myfyrwyr a'u galluogi i ddysgu gwybodaeth, galluoedd a sgiliau. Wrth i'r boblogaeth fyfyrwyr ddod yn fwy amrywiol a gyda'r ffocws cryfach ar ganlyniadau dysgu, mae angen cael dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr ac felly mae rôl yr athro'n newid (cyfeiriwch at Safon 1.3).
Mae gan sefydliadau addysg uwch y prif gyfrifoldeb am ansawdd eu staff ac am roi amgylchedd cefnogol iddynt sy'n eu galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae amgylchedd o'r fath yn:

- sefydlu a dilyn prosesau clir, eglur a theg ar gyfer penodi staff ac amodau cyflogaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd addysgu
- cynnig cyfleoedd i gael datblygiad proffesiynol ac yn hybu datblygiadproffesiynol staff addysgu
- annog gweithgareddau ysgolheigaidd i gryfhau'r cysylltiad rhwng gwaith addysgu a gwaith ymchwil

- annog arloesi mewn dulliau addysgu a defnyddio technolegau newydd.

## 1.6 ADNODDAU DYSGU A CHYMORTH I FYFYRWYR

**SAFON:**
Dylai sefydliadau fod â chyllido priodol ar gyfer gweithgareddau dysgu ac addysgu a sicrhau bod adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr yn cael eu darparu sy'n ddigonol ac yn hawdd cael gafael arnynt.

**CANLLAWIAU:**
I roi profiad addysg uwch da, mae sefydliadau'n darparu ystod o adnoddau i helpu'r myfyrwyr i ddysgu. Mae'r rhain yn amrywio o adnoddau ffisegol megis llyfrgelloedd, cyfleusterau astudio a seilwaith TG i gefnogaeth ddynol ar ffurf tiwtoriaid, cwnselwyr a chynghorwyr eraill. Mae rôl y gwasanaethau cymorth o bwysigrwydd arbennig i hwyluso symudedd myfyrwyr o fewn ac ar draws y systemau addysg uwch.

Mae anghenion poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr (megis myfyrwyr hŷn, myfyrwyr rhan amser, myfyrwyr mewn swydd gyflogedig a myfyrwyr rhyngwladol yn ogystal â myfyrwyr gydag anableddau), a'r symudiad tuag at ddysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr a dulliau hyblyg o ddysgu ac addysgu, yn derbyn ystyriaeth wrth ddyrannu, cynllunio a darparu'r adnoddau dysgu a'r cymorth i fyfyrwyr.

Gallai gweithgareddau a chyfleusterau cymorth gael eu trefnu mewn amrywiaeth o ffyrdd yn dibynnu ar y cyd-destun sefydliadol. Fodd bynnag, mae'r system sicrhau ansawdd fewnol yn gwneud yn siŵr bod yr holl adnoddau'n addas i'w pwrpas, yn hygyrch, a bod myfyrwyr yn cael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

Wrth ddarparu gwasanaethau cymorth mae rôl y staff cymorth a'r staff gweinyddol yn hanfodol ac felly mae'n rhaid iddynt fod yn gymwysedig a chael cyfleoedd i ddatblygu eu galluoedd.

## 1.7 RHEOLI GWYBODAETH

**SAFON:**
Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth berthnasol er mwyn rheoli eu rhaglenni a gweithgareddau eraill yn effeithiol.

**CANLLAWIAU:**
Mae data dibynadwy'n hanfodol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau deallus ac i wybod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen sylw. Mae prosesau effeithiol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am raglenni astudio a gweithgareddau eraill yn bwydo i mewn i'r system sicrhau ansawdd fewnol.

Mae'r wybodaeth a gesglir yn dibynnu, i ryw raddau, ar y math o sefydliad a chenhadaeth y sefydliad. Mae'r canlynol o ddiddordeb:
- Dangosyddion perfformiad allweddol;
- Proffil poblogaeth y myfyrwyr;
- Cyfraddau cynnydd a llwyddiant y myfyrwyr a'r myfyrwyr sy'n ymadael yn fuan;
- Boddhad y myfyrwyr gyda'u rhaglenni;
- Yr adnoddau dysgu a'r cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael;
- Llwybrau gyrfaol y graddedigion.

Mae modd defnyddio dulliau amrywiol o gasglu gwybodaeth. Mae'n bwysig bod y myfyrwyr a'r staff yn

cyfranogi yn y gwaith o ddarparu a dadansoddi gwybodaeth a chynllunio camau dilyniant.

## 1.8 GWYBODAETH GYHOEDDUS

**SAFON:**
Dylai sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am eu gweithgareddau, gan gynnwys eu rhaglenni, sy'n glir, cywir, gwrthrychol, wedi'i diweddaru ac sy'n hawdd cael gafael arni.

**CANLLAWIAU:**
Mae gwybodaeth am weithgareddau'r sefydliadau'n ddefnyddiol i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, yn ogystal ag i raddedigion, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd. Felly, mae sefydliadau'n darparu gwybodaeth am eu gweithgareddau, gan gynnwys y rhaglenni y maent yn eu cynnig, y meini prawf dethol a'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y rhaglenni hyn, y cymwysterau y maent yn eu dyfarnu, y trefnau dysgu, addysgu ac asesu y maent yn eu defnyddio, y cyfraddau pasio a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'w myfyrwyr, yn ogystal â gwybodaeth am swyddi'r graddedigion.

## 1.9 MONITRO RHAGLENNI'N BARHAUS A'U HADOLYGU'N GYFNODOL

**SAFON:**
Dylai sefydliadau fonitro eu rhaglenni a'u hadolygu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u gosod iddynt ac yn ymateb i anghenion y myfyrwyr a'r gymdeithas. Dylai'r adolygiadau hyn arwain at welliant y rhaglen yn barhaus. Dylid cyfathrebu unrhyw gamau gweithredu a gynllunnir neu a gymerir o ganlyniad i'w cynllunio, i bawb sy'n berthnasol.

**CANLLAWIAU:**
Nod y gwaith o fonitro, adolygu a diwygio rhaglenni astudio'n rheolaidd yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau'n briodol a chreu amgylchedd dysgu cefnogol ac effeithiol i fyfyrwyr.

Maent yn cynnwys gwerthuso:

- Cynnwys y rhaglen yng nghyd-destun y gwaith ymchwil diweddaraf yn y ddisgyblaeth berthnasol gan felly sicrhau bod y rhaglen ar ei ffurf fwyaf diweddar
- Anghenion newidiol y gymdeithas
- Llwyth gwaith, cynnydd a chyflawniad y myfyrwyr
- Effeithiolrwydd y gweithdrefnau ar gyfer asesu myfyrwyr
- Disgwyliadau, anghenion a boddhad y myfyrwyr mewn perthynas â'r rhaglen
- Yr amgylchedd dysgu a'r gwasanaethau cymorth a pha mor addas ydynt i bwrpas y rhaglen.

Mae rhaglenni'n cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd gyda chyfranogaeth gan fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei dadansoddi ac mae'r rhaglen yn cael ei haddasu i sicrhau ei bod ar ei ffurf ddiweddaraf. Cyhoeddir manylebau rhaglenni diwygiedig.

## 1.10 ADOLYGIADAU SICRWYDD ANSAWDD ALLANOL CYLCHOL

**SAFON:**
Dylai sefydliadau gael adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yn gylchol, yn unol â'r ESG.

**CANLLAWIAU:**
Gall adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yn eu amrywiol ffurfiau wirio bod prosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliadau'n effeithiol, gall weithredu fel catalydd ar gyfer gwella a chynnig safbwyntiau newydd i'r sefydliad. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth i roi sicrwydd i'r sefydliad a'r cyhoedd am ansawdd gweithgareddau'r sefydliad.

Mae sefydliadau'n cyfranogi mewn prosesau sicrhau ansawdd allanol cylchol sy'n rhoi ystyriaeth, lle bo'n berthnasol, i ofynion y fframwaith deddfwriaethol y maent yn gweithredu o'i fewn. Felly, yn dibynnu ar y fframwaith, gallai'r broses allanol hon o sicrhau ansawdd fod mewn gwahanol ffurfiau a bod â ffocws ar wahanol lefelau sefydliadol (megis y rhaglen, y gyfadran neu'r sefydliad).

Mae sicrhau ansawdd yn broses barhaus ac nid yw'n dod i ben gyda'r adroddiad neu'r adborth allanol na'r broses ddilyniant o fewn y sefydliad. Felly, mae sefydliadau'n sicrhau bod y cynnydd a wnaed ers y gweithgaredd sicrhau ansawdd allanol diwethaf yn derbyn ystyriaeth wrth baratoi ar gyfer y nesaf.

# Rhan 2: Safonau a chanllawiau ar gyfer sicrhau ansawdd allanol

## 2.1 Ystyriaeth o sicrwydd ansawdd mewnol

**Safon:**
Dylai sicrhau ansawdd allanol fynd i'r afael ag effeithiolrwydd y prosesau sicrhau ansawdd mewnol a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r ESG.

**Canllawiau:**
Mae sicrhau ansawdd mewn addysg uwch yn seiliedig ar gyfrifoldeb y sefydliadau am ansawdd eu rhaglenni a darpariaeth arall; felly mae'n bwysig bod sicrhau ansawdd allanol yn cydnabod ac yn cefnogi cyfrifoldeb sefydliadol dros sicrhau ansawdd. Er mwyn sicrhau'r cysylltiad rhwng sicrhau ansawdd mewnol ac allanol, mae sicrhau ansawdd allanol yn cynnwys rhoi ystyriaeth i safonau Rhan 1. Gellir mynd i'r afael â'r rhain yn wahanol, yn dibynnu ar y math o sicrhau ansawdd allanol.

## 2.2 Cynllunio methodolegau sy'n addas i'r diben

**Safon:**
Dylid diffinio sicrhau ansawdd allanol a'i gynllunio'n benodol i sicrhau ei fod yn addas i gyflawni'r nodau a'r amcanion a osodwyd ar ei gyfer, gan ystyried y rheoliadau perthnasol ar yr un pryd. Dylai rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses gynllunio a gwelliant parhaus.

**Canllawiau:**
Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a gwrthrychedd, mae'n hanfodol i sicrhau ansawdd allanol fod â nodau clir y cytunwyd arnynt gan randdeiliaid.

Bydd nodau, amcanion a gweithrediad y prosesau yn:
- cadw lefel y llwyth gwaith a'r gost ar sefydliadau mewn cof;
- cymryd i ystyriaeth yr angen i roi cymorth i sefydliadau wrth wella ansawdd;
- caniatáu i sefydliadau ddangos y gwelliant hwn;
- arwain at wybodaeth glir am y deilliannau a'r dilyniant.

Gallai'r system ar gyfer sicrhau ansawdd allanol weithredu mewn ffordd fwy hyblyg os yw sefydliadau'n gallu dangos effeithiolrwydd eu prosesau sicrhau ansawdd mewnol eu hunain.

## 2.3 Rhoi prosesau ar waith

**Safon:**
Dylai prosesau sicrhau ansawdd allanol fod yn ddibynadwy, yn ddefnyddiol ac wedi'u diffinio ymlaen llaw; dylid eu gweithredu'n gyson a'u cyhoeddi. Maent yn cynnwys:
- hunanasesiad neu gyfwerth;
- asesiad allanol fel arfer, gan gynnwys ymweliad â'r safle;
- adroddiad yn deillio o'r asesiad allanol;
- dilyniant cyson.

**Canllawiau:**
Mae proses sicrhau ansawdd allanol a gyflawnir yn broffesiynol, yn gyson ac yn dryloyw, yn sicrhau y caiff ei dderbyn a'i fod yn effeithiol.

Yn dibynnu ar ddyluniad y system sicrhau ansawdd allanol, mae'r sefydliad yn darparu'r sail ar gyfer sicrhau ansawdd allanol drwy hunanasesiad neu drwy gasglu deunydd arall gan gynnwys tystiolaeth ategol. Fel arfer caiff y ddogfennaeth ysgrifenedig ei hategu gan gyfweliadau â rhanddeiliaid yn ystod

ymweliad â'r safle. Caiff canfyddiadau'r asesiad eu crynhoi mewn adroddiad (cf. Safon 2.5) a ysgrifennir gan grŵp o arbenigwyr allanol (cf. Safon 2.4).

Nid yw sicrwydd ansawdd allanol yn dod i ben gydag adroddiad yr arbenigwyr. Mae'r adroddiad yn rhoi arweiniad clir ar gyfer gweithredu sefydliadol. Mae gan asiantaethau broses ddilynol gyson ar gyfer ystyried y camau a gymerwyd gan y sefydliad. Bydd natur y dilyniant yn dibynnu ar ddyluniad y broses sicrhau ansawdd allanol.

## 2.4 ARBENIGWYR ADOLYGU O BLITH CYMHEIRIAID

**SAFON:**
Dylai unrhyw broses sicrhau ansawdd allanol gael ei gynnal gan grwpiau o arbenigwyr allanol, gan gynnwys aelodau sy'n fyfyrwyr.

**CANLLAWIAU:**
Wrth wraidd sicrhau ansawdd allanol mae'r ystod eang o arbenigedd a ddarperir gan arbenigwyr o blith cymheiriaid, sy'n cyfrannu at waith yr asiantaeth trwy fewnbwn o safbwyntiau amrywiol, gan gynnwys safbwyntiau sefydliadau, academyddion, myfyrwyr a chyflogwyr/ymarferwyr proffesiynol.

Er mwyn sicrhau gwerth a chysondeb gwaith yr arbenigwyr:
- cânt eu dewis yn ofalus;
- maent yn meddu ar sgiliau priodol ac yn gymwys i gyflawni eu tasg;
- cânt eu hyfforddi a'u briffio priodol.

Mae'r asiantaeth yn sicrhau annibyniaeth yr arbenigwyr trwy weithredu mecanwaith sy'n gofalu nad oes unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.

Mae cynnwys arbenigwyr rhyngwladol mewn sicrhau ansawdd allanol, er enghraifft fel aelodau o baneli cymheiriaid, yn werthfawr gan fod hyn yn ychwanegu dimensiwn pellach at ddatblygu a gweithredu prosesau.

## 2.5 MEINI PRAWF AR GYFER DEILLIANNAU

**SAFON:**
Dylai unrhyw ddeilliannau neu ddyfarniadau a wneir o ganlyniad i sicrhau ansawdd allanol fod yn seiliedig ar feini prawf clir a chyhoeddedig sy'n cael eu gweithredu'n gyson, p'un ai yw'r broses yn arwain at benderfyniad ffurfiol ai peidio.

**CANLLAWIAU:**
Mae sicrhau ansawdd allanol, ac yn arbennig ei ddeilliannau, yn cael effaith sylweddol ar sefydliadau a rhaglenni sy'n cael eu gwerthuso a'u barnu.

Er mwyn tegwch a dibynadwyedd, mae deilliannau sicrhau ansawdd allanol yn seiliedig ar feini prawf a ddiffinnir ymlaen llaw ac a gyhoeddir, sy'n cael eu dehongli'n gyson ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn dibynnu ar y system sicrhau ansawdd allanol, gall deilliannau fod ar wahanol ffurfiau, er enghraifft, argymhellion, dyfarniadau neu benderfyniadau ffurfiol.

## 2.6 ADRODD YN ÔL

**SAFON:**
Dylai adroddiadau llawn gan yr arbenigwyr gael eu cyhoeddi, yn glir ac yn hygyrch i'r gymuned academaidd, partneriaid allanol ac unigolion eraill sydd â diddordeb. Os bydd yr asiantaeth yn gwneud unrhyw benderfyniad ffurfiol ar sail yr adroddiadau, dylid cyhoeddi'r penderfyniad ynghyd â'r adroddiad.

**CANLLAWIAU:**
Mae adroddiad yr arbenigwyr yn ffurfio sail ar gyfer gweithredu dilynol gan y sefydliad o'r gwerthusiad allanol, ac mae'n darparu gwybodaeth i gymdeithas am weithgareddau sefydliad. Er mwyn i'r adroddiad gael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer gweithredu, mae angen iddo fod yn glir ac yn gryno o ran ei strwythur a'i iaith, a dylai gwmpasu'r canlynol:

- disgrifiad o'r cyd-destun (i helpu â lleoli'r sefydliad addysg uwch yn ei gyd-destun penodol);
- disgrifiad o'r weithdrefn unigol, gan gynnwys yr arbenigwyr dan sylw;
- tystiolaeth, dadansoddiad a chanfyddiadau;
- casgliadau;
- nodweddion arfer da, a ddangosir gan y sefydliad;
- argymhellion ar gyfer gweithredu dilynol.

Gall fod yn ddefnyddiol paratoi adroddiad cryno.

Mae cywirdeb ffeithiol adroddiad yn gwella os caiff y sefydliad gyfle i nodi gwallau ffeithiol cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau.

## 2.7 CWYNION AC APELIADAU

**SAFON:**
Dylai prosesau cwynion ac apeliadau gael eu diffinio'n glir fel rhan o gynllunio prosesau sicrhau ansawdd allanol a'u cyfleu i'r sefydliadau.

**CANLLAWIAU:**
Er mwyn diogelu hawliau'r sefydliadau a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn deg, mae sicrwydd ansawdd allanol yn cael ei weithredu mewn modd agored ac atebol. Serch hynny, gall fod camddealltwriaeth neu enghreifftiau o anfodlonrwydd ynghylch y broses neu ddeilliannau ffurfiol.

Mae angen i sefydliadau gael mynediad at brosesau sy'n caniatáu iddynt godi materion sy'n peri pryder gyda'r asiantaeth; mae angen i'r asiantaethau ymdrin â materion o'r fath mewn ffordd broffesiynol drwy broses sydd wedi'i diffinio'n glir a'i gweithredu'n gyson.

Mae gweithdrefn ar gyfer cwynion yn caniatáu i sefydliad ddatgan ei anfodlonrwydd ynghylch y ffordd y mae'r broses yn cael ei chynnal neu'r rhai sy'n ei chynnal.

Mewn gweithdrefn apelio, mae'r sefydliad yn cwestiynu deilliannau ffurfiol y broses, lle gall ddangos nad yw'r deilliannau'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, nad yw meini prawf wedi'u gweithredu'n gywir neu nad yw'r prosesau wedi'u cynnal yn gyson.

# Rhan 3: Safonau a Chanllawiau ar gyfer asiantaethau sicrhau ansawdd

## 3.1 GWEITHGAREDDAU, POLISI A PHROSESAU AR GYFER SICRHAU ANSAWDD

**SAFON:**
Dylai asiantaethau ymgymryd â gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol fel y'u diffinnir yn Rhan 2 o'r ESG yn rheolaidd. Dylai fod ganddynt nodau ac amcanion clir a phendant sy'n rhan o'u datganiad cenhadaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r nodau ac amcanion hyn fod yn rhan o waith dyddiol yr asiantaeth. Dylai asiantaethau sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn eu llywodraethiant a'u gwaith.

**CANLLAWIAU:**
Er mwyn gofalu bod sicrhau ansawdd allanol yn ystyrlon, mae'n bwysig bod sefydliadau a'r cyhoedd yn ymddiried mewn asiantaethau.

Felly, caiff nodau ac amcanion y gweithgareddau sicrhau ansawdd eu disgrifio a'u cyhoeddi, ynghyd â natur y rhyngweithio rhwng yr asiantaethau a rhanddeiliaid perthnasol mewn addysg uwch, yn enwedig y sefydliadau addysg uwch, a chwmpas gwaith yr asiantaethau. Gellir cynyddu arbenigedd yr asiantaeth drwy gynnwys aelodau rhyngwladol ar bwyllgorau'r asiantaeth.

Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd allanol gan asiantaethau i gyflawni amcanion gwahanol. Yn eu plith mae gwerthuso, adolygu, archwilio, asesu, achredu neu weithgareddau tebyg eraill ar lefel rhaglen neu sefydliadol y gellir eu cynnal yn wahanol. Pan fydd yr asiantaethau hefyd yn cyflawni gweithgareddau eraill, mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng sicrhau ansawdd allanol a'u meysydd gwaith eraill.

## 3.2 STATWS SWYDDOGOL

**SAFON:**
Dylai fod gan asiantaethau sail gyfreithiol sefydledig a dylent gael eu cydnabod yn ffurfiol fel asiantaethau sicrhau ansawdd gan awdurdodau cyhoeddus cymwys.

**CANLLAWIAU:**
Yn benodol, pan gynhelir proses sicrhau ansawdd allanol at ddibenion rheoleiddio, mae angen i sefydliadau gael y sicrwydd bod deilliannau'r broses hon yn cael eu derbyn o fewn eu system addysg uwch, gan y wladwriaeth, y rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

## 3.3 ANNIBYNIAETH

**SAFON:**
Dylai asiantaethau fod yn annibynnol a gweithredu'n ymreolaethol. Dylent fod â chyfrifoldeb llawn am eu gweithrediadau a deilliannau'r gweithrediadau hynny heb ddylanwad trydydd parti.

**CANLLAWIAU:**
Mae angen asiantaethau annibynnol fel cymheiriaid ar sefydliadau ymreolaethol.

Wrth ystyried annibyniaeth asiantaeth, mae'r canlynol yn bwysig:

- Annibyniaeth sefydliadol, a ddangosir gan ddogfennaeth swyddogol (e.e. offerynnau llywodraethu, gweithredoedd deddfwriaethol neu statudau'r sefydliad) sy'n pennu annibyniaeth gwaith yr asiantaeth oddi wrth drydydd parti, megis sefydliadau addysg uwch, llywodraethau a mudiadau rhanddeiliaid eraill;

- Annibyniaeth weithredol: mae diffiniad a gweithrediad gweithdrefnau a dulliau'r asiantaeth, yn ogystal ag enwebu a phenodi arbenigwyr allanol, yn annibynnol ar drydydd parti megis sefydliadau addysg uwch, llywodraethau a rhanddeiliaid eraill;
- Annibyniaeth deilliannau ffurfiol: tra bod arbenigwyr o gefndiroedd rhanddeiliaid perthnasol, yn enwedig myfyrwyr, yn cymryd rhan mewn prosesau sicrhau ansawdd, yr asiantaeth sy'n gyfrifol o hyd am ddeilliannau terfynol y prosesau sicrhau ansawdd.

Hysbysir unrhyw un sy'n cyfrannu at weithgareddau sicrhau ansawdd allanol asiantaeth (e.e. fel arbenigwr) er y gallant fod wedi'u henwebu gan drydydd parti, eu bod yn gweithredu mewn rôl bersonol ac nad ydynt yn cynrychioli eu sefydliadau cyfansoddol pan fyddant yn gweithio i'r asiantaeth. Mae annibyniaeth yn bwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw weithdrefnau a phenderfyniadau yn seiliedig ar arbenigedd yn unig.

## 3.4 DADANSODDIAD THEMATIG

**SAFON:**
Dylai asiantaethau gyhoeddi adroddiadau rheolaidd sy'n disgrifio ac yn dadansoddi canfyddiadau cyffredinol eu gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol.

**CANLLAWIAU:**
Yn ystod eu gwaith, mae asiantaethau yn cael gwybodaeth am raglenni a sefydliadau a all fod yn ddefnyddiol y tu hwnt i gwmpas un broses, gan ddarparu deunydd ar gyfer dadansoddiadau strwythuredig ar draws y system addysg uwch. Gall y canfyddiadau hyn gyfrannu at adfyfyrio a gwella polisïau a phrosesau sicrhau ansawdd mewn cyd-destunau sefydliadol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd dadansoddiad trylwyr a gofalus o'r wybodaeth hon yn dangos datblygiadau, tueddiadau a meysydd o arfer da neu anhawster parhaus.

## 3.5 ADNODDAU

**SAFON:**
Dylai fod gan asiantaethau adnoddau digonol a phriodol, o ran pobl ac yn ariannol, i gyflawni eu gwaith.

**CANLLAWIAU:**
Mae er budd y cyhoedd bod asiantaethau'n cael eu hariannu'n ddigonol ac yn briodol, o ystyried effaith bwysig addysg uwch ar ddatblygiad cymdeithasau ac unigolion. Mae adnoddau'r asiantaethau yn eu galluogi i drefnu a chynnal eu gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol mewn modd effeithiol ac effeithlon. Ymhellach, mae'r adnoddau yn galluogi'r asiantaethau i wella, i adfyfyrio ar eu harfer ac i hysbysu'r cyhoedd am eu gweithgareddau.

## 3.6 SICRWYDD ANSAWDD MEWNOL AC YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

**SAFON:**
Dylai fod gan asiantaethau brosesau ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol sy'n ymwneud â diffinio, sicrhau a gwella ansawdd ac uniondeb eu gweithgareddau.

**CANLLAWIAU:**
Mae angen i asiantaethau fod yn atebol i'w rhanddeiliaid. Felly, mae safonau proffesiynol uchel ac uniondeb yng ngwaith yr asiantaeth yn anhepgor. Mae'r gwaith o adolygu a gwella eu gweithgareddau yn mynd rhagddynt, er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau i sefydliadau a chymdeithas cystal â phosibl.

Mae asiantaethau yn defnyddio polisi sicrhau ansawdd mewnol sydd ar gael ar eu gwefan. Mae'r polisi hwn:

- yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'i weithgareddau yn gymwys ac yn gweithredu'n broffesiynol ac yn foesegol;
- yn cynnwys mecanweithiau adborth mewnol ac allanol sy'n arwain at welliant parhaus o fewn yr asiantaeth;
- yn gwarchod rhag anoddefgarwch neu unrhyw fath neu gamwahaniaethu;
- yn amlinellu'r cyfathrebu priodol ag awdurdodau perthnasol yr awdurdodaethau hynny lle maent yn gweithredu;
- yn sicrhau bod unrhyw weithgareddau a gyflawnir a deunydd a gynhyrchir gan isgontractwyr yn unol â'r ESG, os caiff rhai neu bob un o'r elfennau yn ei weithgareddau sicrhau ansawdd eu his-gontractio i bartïon eraill;
- yn caniatáu i'r asiantaeth sefydlu statws a chydnabod y sefydliadau y mae'n cynnal sicrwydd ansawdd allanol gyda nhw.

## 3.7 ADOLYGIAD ALLANOL CYLCHOL O ASIANTAETHAU

**SAFON:**
Dylai asiantaethau gael eu hadolygu'n allanol o leiaf unwaith bob pum mlynedd er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â safonau a chanllawiau'r ESG.

**CANLLAWIAU:**
Bydd adolygiad allanol cyfnodol yn helpu'r asiantaeth i fyfyrio ar ei pholisïau a'i gweithgareddau. Mae'n darparu modd o sicrhau'r asiantaeth a'i rhanddeiliaid ei bod yn parhau i gadw at yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn yr ESG.

# III. ATODLEN: RHESTR GRYNO O SAFONAU

## RHAN 1: SAFONAU AR GYFER SICRHAU ANSAWDD MEWNOL

### 1.1 POLISI AR GYFER SICRHAU ANSAWDD

Dylai fod gan sefydliadau bolisi ar gyfer sicrhau ansawdd sydd ar gael i'r cyhoedd, ac sy'n rhan o'u rheolaeth strategol. Dylai rhanddeiliaid mewnol ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn drwy strwythurau a phrosesau priodol, tra'n cynnwys rhanddeiliaid allanol.

### 1.2 CYNLLUNIO A CHYMERADWYO RHAGLENNI

Dylai fod gan sefydliadau brosesau ar gyfer cynllunio a chymeradwyo eu rhaglenni. Dylai'r rhaglenni gael eu cynllunio fel eu bod yn bodloni'r amcanion a osodwyd ar eu cyfer, gan gynnwys y deilliannau dysgu a fwriadwyd. Dylai'r cymhwyster sy'n deillio o raglen gael ei nodi a'i gyfathrebu'n glir, a dylai gyfeirio at lefel gywir y fframwaith cymwysterau cenedlaethol ar gyfer addysg uwch ac, o ganlyniad, at Fframwaith Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop.

### 1.3 DYSGU, ADDYSGU AC ASESU SY'N CANOLBWYNTIO AR FYFYRWYR

Dylai sefydliadau sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n annog myfyrwyr i gymryd rhan weithredol wrth greu'r broses ddysgu, a bod asesu myfyrwyr yn adlewyrchu'r dull hwn.

### 1.4 DERBYN, DILYNIANT, CYDNABYDDIAETH AC ARDYSTIAD MYFYRWYR

Dylai sefydliadau weithredu rheoliadau sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw a'u cyhoeddi, yn gyson ar gyfer pob cam o "gylch bywyd" myfyrwyr, e.e. derbyn, dilyniant, cydnabyddiaeth ac ardystiad myfyrwyr.

### 1.5 STAFF ADDYSGU

Dylai sefydliadau sicrhau eu hunain ynghylch cymhwysedd eu hathrawon. Dylent ddilyn prosesau teg a thryloyw ar gyfer recriwtio a datblygu staff.

### 1.6 ADNODDAU DYSGU A CHYMORTH I FYFYRWYR

Dylai fod gan sefydliadau gyllid priodol ar gyfer gweithgareddau dysgu ac addysgu, ynghyd â sicrhau bod adnoddau dysgu digonol a hygyrch a chymorth i fyfyrwyr yn cael eu darparu.

### 1.7 RHEOLI GWYBODAETH

Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth berthnasol i reoli eu rhaglenni a gweithgareddau eraill yn effeithiol.

### 1.8 GWYBODAETH GYHOEDDUS

Dylai sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am eu gweithgareddau, gan gynnwys rhaglenni, sy'n glir, yn gywir, yn wrthrychol ac yn gyfredol; dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn hawdd.

### 1.9 MONITRO PARHAUS AC ADOLYGU RHAGLENNI O BRYD I'W GILYDD

Dylai sefydliadau fonitro ac adolygu eu rhaglenni o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion a osodwyd ar eu cyfer ac yn ymateb i anghenion myfyrwyr a chymdeithas. Dylai'r adolygiadau hyn arwain at welliant parhaus yn y rhaglen. Dylid cyfleu unrhyw gamau sydd ar y gweill neu sydd wedi'u cymryd o ganlyniad i adolygiadau i bawb dan sylw.

### 1.10 SICRHAU ANSAWDD ALLANOL CYLCHOL

Dylai sefydliadau ymgymryd â phrosesau sicrhau ansawdd allanol yn unol â'r ESG ar sail gylchol.

## RHAN 2: SAFONAU AR GYFER SICRHAU ANSAWDD ALLANOL

### 2.1 YSTYRIAETH O SICRHAU ANSAWDD MEWNOL

Dylai sicrhau ansawdd allanol fynd i'r afael ag effeithiolrwydd y sicrhau ansawdd mewnol a ddisgrifir yn Rhan 1 o safonau a chanllawiau'r ESG.

### 2.2 CYNLLUNIO METHODOLEGAU SY'N ADDAS I'R DIBEN

Dylid diffinio sicrhau ansawdd allanol a'i gynllunio'n benodol i sicrhau ei fod yn addas i gyflawni'r nodau a'r amcanion a osodwyd ar ei gyfer, gan ystyried y rheoliadau perthnasol ar yr un pryd. Dylai rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses gynllunio a gwelliant parhaus.

### 2.3 GWEITHREDU PROSESAU

Dylai prosesau sicrhau ansawdd allanol fod yn ddibynadwy, yn ddefnyddiol ac wedi'u diffinio ymlaen llaw; dylid eu gweithredu'n gyson a'u cyhoeddi. Maent yn cynnwys:

- hunanasesiad neu gyfwerth;
- asesiad allanol fel arfer, gan gynnwys ymweliad â'r safle;
- adroddiad yn deillio o'r asesiad allanol;
- dilyniant cyson.

### 2.4 ADOLYGU GAN GYMHEIRIAID

Dylai unrhyw broses sicrhau ansawdd allanol gael ei gyflawni gan grwpiau o arbenigwyr allanol yn cynnwys aelodau sy'n fyfyrwyr.

### 2.5 MEINI PRAWF AR GYFER DEILLIANNAU

Dylai unrhyw ddeilliannau neu ddyfarniadau a wneir o ganlyniad i sicrhau ansawdd allanol fod yn seiliedig ar feini prawf clir a chyhoeddedig sy'n cael eu gweithredu'n gyson, p'un ai yw'r broses yn arwain at benderfyniad ffurfiol ai peidio.

### 2.6 ADRODD

Dylai adroddiadau llawn gan yr arbenigwyr gael eu cyhoeddi, yn glir ac yn hygyrch i'r gymuned academaidd, partneriaid allanol ac unigolion eraill sydd â diddordeb. Os bydd yr asiantaeth yn gwneud unrhyw benderfyniad ffurfiol ar sail yr adroddiadau, dylid cyhoeddi'r penderfyniad ynghyd â'r adroddiad.

### 2.7 CWYNION AC APELIADAU

Dylai prosesau cwynion ac apeliadau gael eu diffinio'n glir fel rhan o gynllunio prosesau sicrhau ansawdd allanol a'u cyfleu i'r sefydliadau.

## RHAN 3: SAFONAU AR GYFER ASIANTAETHAU SICRHAU ANSAWDD

### 3.1 GWEITHGAREDDAU, POLISI A PHROSESAU AR GYFER SICRHAU ANSAWDD

Dylai asiantaethau ymgymryd â gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol fel y'u diffinnir yn Rhan 2 o'r ESG yn rheolaidd. Dylai fod ganddynt nodau ac amcanion clir ac eglur sy'n rhan o'u datganiad cenhadaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r nodau ac amcanion hyn fod yn rhan o waith dyddiol yr asiantaeth. Dylai asiantaethau sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn eu llywodraethiant a'u gwaith.

### 3.2 STATWS SWYDDOGOL

Dylai fod gan asiantaethau sail gyfreithiol sefydledig a dylent gael eu cydnabod yn ffurfiol fel asiantaethau sicrhau ansawdd gan awdurdodau cyhoeddus cymwys.

### 3.3 ANNIBYNIAETH

Dylai asiantaethau fod yn annibynnol a gweithredu'n ymreolaethol. Dylent fod â chyfrifoldeb llawn am eu gweithrediadau a deilliannau'r gweithrediadau hynny heb ddylanwad trydydd parti.

### 3.4 DADANSODDIAD THEMATIG

Dylai asiantaethau gyhoeddi adroddiadau rheolaidd sy'n disgrifio ac yn dadansoddi canfyddiadau cyffredinol eu gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol.

### 3.5 ADNODDAU

Dylai fod gan asiantaethau adnoddau digonol a phriodol, o ran pobl ac yn ariannol, i gyflawni eu gwaith.

### 3.6 SICRWYDD ANSAWDD MEWNOL AC YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

Dylai fod gan asiantaethau brosesau ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol sy'n ymwneud â diffinio, sicrhau a gwella ansawdd ac uniondeb eu gweithgareddau.

### 3.7 ADOLYGIAD ALLANOL CYLCHOL O ASIANTAETHAU

Dylai asiantaethau gael eu hadolygu'n allanol o leiaf unwaith bob pum mlynedd er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â safonau a chanllawiau'r ESG.

Y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop, sef y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG), yw'r sail ar gyfer sicrhau ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (EHEA).

Maent yn un o brif lwyddiannau Proses Bologna a'i strwythur dilynol, Grŵp Dilynol Bologna (BFUG) yn y degawd diwethaf.